21ain Medi 2007

Potter i Ymuno â Chast Asiantaeth Ffilm Cymru

Mae tîm Asiantaeth Ffilm Cymru'n gryfach fyth erbyn hyn yn dilyn apwyntiad Keith Potter fel eu Pennaeth Talent newydd. Mae Keith yn dechrau ar ei waith gyda'r asiantaeth o Gaerdydd ar unwaith, a bydd yn gyfrifol am adnabod a meithrin y talent Cymreig, a'u prosiectau, yn y byd gwneud ffilmiau, gan gynnwys llechen bresennol yr Asiantaeth o tua 20 ffilm.

A chanddo mwy nag wyth mlynedd o brofiad yn y diwydiant ffilm, mae Potter yn ymuno ag Asiantaeth Ffilm Cymru wedi cyfnod yn arwain datblygiad llechen o ffilmiau sinema yn y cwmni Llundeinig hynod gynhyrchiol, 'Dan films'. Ef a ddatblygodd prosiect diweddaraf Christopher Smith 'Triangle', gan ddilyn llwyddiant rhyngwladol 'Creep' a 'Deliverance', a hefyd 'Put Together' gan Tom Rob Smith, awdur sydd â'i nofel gyntaf wedi ei hopsiynu gan y cyfarwyddwr Ridley Scott. Mae hefyd wedi cyd-weithio'n glos â'r nofelydd Jeff Noon wrth iddo addasu ei stori 'Creeping Zero'.

Fel aelod o fwrdd ymgynghorol yr UK Screenwriters Festival, mae Potter yn ymroddedig i ddatblygu ysgrifennu ar gyfer ffilm ac i gyfarwyddo talent, yn ogystal â chefnogi cynhyrchwyr.

"Mae gennyf berthynas gref ag asiantaethau, cyrff ariannu, cymdeithasau sgiliau ac, yn bwysicaf oll, â thalent ysgrifennu a chyfarwyddo, gan fy mod wedi gweithio ar addasiadau, sgriptiau ar sbec a thriniaethau, gan eu tywys drwy'r broses ddatblygu," eglura Potter.

"Fel sefydliad mae Asiantaeth Ffilm Cymru wedi creu argraff arnaf gyda'u ffordd agored o gyfathrebu a'u dull proffesiynol o weithio. Mae gan y tîm gysylltiadau cryf â'r talent sydd yn y byd gwneud ffilmiau ac maent yn ymarferol weithgar wrth feithrin a datblygu'r dalent honno. Yn unol â meddylfryd y tîm 'rwyf am weld ffilmiau'n cael eu cynhyrchu, a 'rwy'n edrych ymlaen at gyd-weithio â nhw wrth ddatblygu'r llechen."

“’Rydym wedi cael blwyddyn gyntaf arbennig o lwyddiannus gyda llechen sydd yn eang, yn amrywiol ac yn gyffrous, ac sydd erbyn hyn yn barod i’w chyfnerthu,” ychwanegodd Pauline Burt, Prif Weithredwr Asiantaeth Ffilm Cymru.

“Mae Keith yn ddatblygwr proffesiynol sy’n fawr ei barch a chanddo gysylltiadau ardderchog, ac mae’n gwbl ymroddedig i ddatblygu talent yn y byd gwneud ffilmiau. Mae ganddo’r sgiliau a’r profiad i hyrwyddo talent, gan alluogi i unigolion wneud y gorau o’u prosiectau tra’n chwilio’n barhaol am dalent newydd. ‘Rydym yn ei groesawu i’n tîm.”

Ariannir Asiantaeth Ffilm Cymru gan Gyngor Celfyddydau Cymru, yr ‘UK Film Council’ a Llywodraeth Cynulliad Cymru, drwy Busnes Creadigol Cymru - sefydlwyd yr olaf er mwyn cefnogi, annog a gwella amrywiaeth a nifer y ffilmiau sy’n cael eu cynhyrchu yng Nghymru, ac i feithrin y cyfoeth o dalent greadigol sydd ar gael yng Nghymru.

-diwedd-

Am wybodaeth bellach cysylltwch â Lisa Jenkins ar 0790 873 8763 neu ar e-bost lisa@filmagencywales.com <mailto:lisa@filmagencywales.com>

Sylwadau i Olygyddion:

Ynglŷn ag Asiantaeth Ffilm Cymru

1. Asiantaeth Ffilm Cymru, a sefydlwyd yng Ngorffennaf 2006, yw’r unig Asiantaeth ffilm yng Nghymru, â chyfrifoldeb i sicrhau fod agweddau economaidd, diwylliannol ac addysgol ffilm yn cael eu cynrychioli’n effeithiol yng Nghymru, Prydain a’r byd. Fel asiantaeth strategol bwriad yr Asiantaeth Ffilm yw bod o gymorth i hyrwyddo datblygiad diwydiant ffilm hyfyw a chynaliadwy i Gymru ac i hybu diwylliant ffilm bywiog a deinamig.

2. Blaenoriaeth yr Asiantaeth yw adnabod a meithrin talent gwneud ffilm yng Nghymru - yn enwedig awduron, cyfarwyddwyr, ysgrifenwyr-gyfarwyddwyr a chynhyrchwyr - drwy gefnogi ac annog datblygiad eu gwaith, eu llwyddiannau a’u huchelgeisiau.

3. ‘Rydym yn cefnogi polisi eang ar addysg ffilm i gyd-fynd â’n prif flaenoriaeth o greu a chynnal diwylliant ffilm bywiog a deinamig ledled Cymru. Ein nôd yw gwella llythrennedd ffilm ac ysgogi awydd am ffilmiau arbenigol, diwylliannol a ffilmiau nad ydynt yn perthyn i’r brif ffrwd.

4. Dymuniad Asiantaeth Ffilm Cymru yw ehangu amrywiaeth a nifer y ffilmiau sy'n cael eu cynhyrchu gan dalent Cymreig newydd a thalent Cymreig sydd eisoes wedi sefydlu. Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn cefnogi awduron, ysgrifenwyr-gyfarwyddwyr, cyfarwyddwyr a chynhyrchwyr o Gymru.

5. Cadeirydd Bwrdd y Cyfarwyddwyr yw Peter Edwards a'r aelodau yw Sybil Crouch (Is-Gadeirydd), Elan Closs Stephens, Angharad Evans, Stephen Cleary, Nerys Lloyd ac Ynyr Williams. Pauline Burt yw'r Prif Weithredwr.

6. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar www.filmagencywales.com

Ffynhonell – Greenpeace UK